

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

Y BIL CERBYDAU AWTOMEIDDIEDIG

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chaniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Senedd Cymru, os bydd Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru
2. Yn benodol, mae'r Memorandwm atodol hwn yn ymwneud â'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 29.2(iii)(b) i osod memorandwm o'r fath mewn perthynas â Bil sydd, yn rhinwedd gwelliannau a gyflwynwyd gan Weinidog y Goron, yn gwneud darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf.
3. Cyflwynwyd y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig ("y Bil") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 8 Tachwedd 2023. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 24 Tachwedd 2023: <https://senedd.wales/media/g04nriin/lcm-ld16168-w.pdf>.

4. Hynt y Bil hyd yn hyn yw:

Darlleniad 1 ^{af}	8 Tachwedd 2023
2 ^{il} ddarlleniad	28 Tachwedd 2023
Cam Pwyllgor	10 Ionawr 2024
Cam Adrodd	6 Chwefror 2024

5. Mae'r Bil ar gael yn: <https://bills.parliament.uk/publications/52908/documents/3984>.

Amcanion y polisi

6. Mae cerbydau awtomeiddiedig yn agos iawn at gael eu masnacheiddio mewn marchnadoedd ledled y byd. Erbyn 2035, mae'n bosibl y bydd 40% o geir newydd yn y DU yn gallu gyrru eu hunain. Mae'n debygol y bydd gwasanaethau dosbarthu nwyddau a gwasanaethau i deithwyr yn gweithredu cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain o fewn amserlen debyg.
7. Sefydlodd Llywodraeth y DU y Ganolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd (CCAV) yn 2015 i ddod â datblygwyr technoleg Symudedd Cysylltiedig ac Awtonomaidd (CAM), gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr cerbydau, y byd academaidd, yswirwyr, llywodraeth leol a rhanbarthol a chyffff trafniadaeth ynghyd, ymhlith llawer o rai eraill, i brofi a datblygu polisi ac i adeiladu galluoedd a chadwyni cyflenwi'r DU.
8. Gweledigaeth Llywodraeth y DU ar gyfer Symudedd Cysylltiedig ac Awtonomaidd yw y bydd y DU, erbyn 2025, yn dechrau gweld cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain yn cael eu defnyddio, gan wella ffyrdd y caiff pobl a

nwyddau eu symud o amgylch y wlad a chreu marchnad fasnachol gynnar ar gyfer y technolegau. Bydd y farchnad hon yn cael ei galluogi gan fframwaith rheoleiddio, deddfwriaethol a diogelwch cynhwysfawr, a wasanaethir gan gadwyn gyflenwi a sylfaen sgiliau gref ym Mhrydain, a bydd yn cael ei defnyddio'n hyderus gan fusnesau a'r cyhoedd fel ei gilydd.

Crynodeb o'r Bil

9. Mae'r Bil yn gweithredu argymhellion yr adolygiad pedair blynedd o'r trefniadau rheoleiddio ar gyfer cerbydau awtomeiddiedig a gynhaliwyd ar y cyd gan Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr a Chomisiwn y Gyfraith yr Alban ("Comisiynau'r Gyfraith"). Bwriedir iddo osod y fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain yn ddiogel ym Mhrydain Fawr.

10. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth y DU i'r argymhellion yn Connected and Automated Mobility 2025: [Realising the benefits of self-driving vehicles in the UK](#) (CAM 2025) ym mis Awst 2022. Yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith, ymrwymodd CAM 2025 i amlinellu fframwaith cyfreithiol a diogelwch i ddarparu eglurder ynghylch cyfrifoldeb am gerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain a chyflwyno gofynion diogelwch newydd. Mae'r fframwaith yn berthnasol i systemau sy'n gallu gyrru cerbyd, am ran o daith neu daith gyfan, heb unrhyw fewnbwn gan berson. Ystyrir bod systemau o'r fath yn systemau 'di-yrwr', ac mae'r cyfrifoldebau cyfreithiol yn wahanol. Mae'r dechnoleg hon yn wahanol i dechnoleg sy'n cefnogi gyrrwr (technoleg cymorth gyrrwr), lle mae'r gyrrwr yn parhau i fod yn gyfrifol bob amser. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith y dylai fod yn drosedd marchnata cerbyd fel cerbyd di-yrwr os nad yw'n bodloni'r diffiniad cyfreithiol.

11. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth sy'n rheoleiddio defnyddio cerbydau awtomeiddiedig. Yn fras, mae'n gwneud hynny drwy:
 - greu cyfundrefn awdurdodi sy'n rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol awdurdodi cerbydau awtomeiddiedig penodol neu gategorïau o gerbydau awtomeiddiedig i'w defnyddio ar ffyrdd;
 - gwneud darpariaeth ynghylch "cyrff a reoleiddir", a fydd yn gyfrifol am swyddogaethau awtomeiddiedig mewn cerbydau a gweithredu cerbydau awtomeiddiedig sydd wedi cael eu hawdurdodi;
 - gwneud darpariaeth helaeth ar gyfer gorfodi mewn perthynas â cherbydau awtomeiddiedig, gan gynnwys mewn perthynas â chyrff a reoleiddir;
 - darparu ar gyfer system drwyddedu ar gyfer cerbydau awtomeiddiedig sy'n cludo teithwyr.

12. Mae saith rhan i'r Bil:
 - Rhan 1: Cynllun rheoleiddiol ar gyfer cerbydau awtomeiddiedig
 - Rhan 2: Atebolrwydd troseddol am ddefnyddio cerbydau
 - Rhan 3: Plismona ac ymchwiliadau
 - Rhan 4: Cyfyngiadau ar farchnata

Rhan 5: Trwyddedau ar gyfer gwasanaethau i deithwyr sy'n defnyddio cerbydau awtomeiddiedig

Rhan 6: Addasu cyfundrefnau presennol

Rhan 7: Darpariaeth gyffredinol

Gwelliannau a gyflwynwyd yn ystod cam Adrodd yr Arglwyddi sy'n gwneud darpariaeth y mae angen cydsyniad ar ei chyfer

13. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r diwygiadau canlynol gan wneud darpariaeth sy'n gofyn am gydsyniad y Senedd:

- Diwygiad i gymal 88(5) sy'n cywiro camgymeriad drafftio, gan alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch rhannu gwybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau i deithwyr o fewn eu cymhwysedd:

Cymal 88, tudalen 62, llinell 1, hepgor "Secretary of State" a mewnosod "appropriate national authority"

- Diwygiad i'r Bil fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn gymwys i'r pwerau ym mharagraff 2(7) Atodlen 6. Amlinellir y weithdrefn gwneud rheoliadau yng Nghymal 97. Bydd y gwelliant hwn yn golygu y bydd rheoliadau sy'n pennu'r cosbau ariannol uchaf o dan y cynllun awdurdodi cerbydau awtomeiddiedig a'r cynllun trwyddedu gwasanaethau i deithwyr yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Cymal 97, tudalen 70, llinell 6, hepgor isadrannau (5) i (8) a mewnosod-

"(5) The following regulations are subject to the affirmative procedure—

(a) regulations under section 36(9),

(b) regulations under section 50 that amend an Act, an Act of the Scottish Parliament or an Act of Senedd Cymru, and

(c) regulations under paragraph 2(7) of Schedule 6;

and all other regulations are subject to the negative procedure.

(6) The effect of regulations being subject to the affirmative procedure is—

(a) in the case of regulations made by the Secretary of State, that the statutory instrument containing the regulations may not be made unless a draft of it has been laid before, and approved by a resolution of, each House of Parliament;

(b) in the case of regulations made by the Welsh Ministers, that the statutory instrument containing the regulations may not be made unless a draft of it has been laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru [sic];

(c) in the case of regulations made by the Scottish Ministers, the effect provided by section 29 of the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010).

- (7) *The effect of regulations being subject to the negative procedure is—*
- (a) *in the case of regulations made by the Secretary of State, that the statutory instrument containing the regulations is (unless it also contains regulations subject to the affirmative procedure) subject to annulment in pursuance of a resolution of either House of Parliament;*
 - (b) *in the case of regulations made by the Welsh Ministers, that the statutory instrument containing the regulations is (unless it also contains regulations subject to the affirmative procedure) subject to annulment in pursuance of a resolution of Senedd Cymru [sic];*
 - (c) *in the case of regulations made by the Scottish Ministers, the effect provided by section 28 of the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010.”*

14. Rydym wedi tynnu sylw Llywodraeth y DU at y gwallau teipograffyddol.

Dirprwyo pwerau

15. Nid yw'r pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru yng nghymalau 82 a 90 yn cael eu heffeithio gan y diwygiadau a nodir uchod.

16. Mae'r diwygiadau a nodir uchod yn rhoi pŵer dirprwyedig ychwanegol i Weinidogion Cymru (cymal 88(5)) ac yn ei gofyn am weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y pŵer dirprwyedig sydd yn bodoli'n barod ym mharagraff 2(7) o Atodlen 6.

17. Rydym yn parhau i ystyried a ellid gwneud gwelliannau i gymal 93, sy'n galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau i wneud darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur rheoleiddio traffig perthnasol yn Lloegr, i roi'r pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Bwriad cymal 93 yw hwyluso argaeledd yr wybodaeth ddigidol y gallai cerbydau awtomeiddiedig ei defnyddio, neu, yn wir, gerbydau eraill sydd â swyddogaethau cymorth gyrrwr electronig, i gydymffurfio â'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth fel Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. O ystyried natur gydgysylltiedig systemau trafndiaeth Cymru a Lloegr, credwn y byddai'n fanteisiol i wybodaeth o'r fath fod ar gael ar yr un pryd, a byddai pwerau i Weinidogion Cymru yng nghymal 93 yn ein galluogi i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU yn hyn o beth.

Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad

18. Mae safbwynt Llywodraeth y DU yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth Cymru.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil

19. Nid yw'r diwygiadau'n newid fy marn mai dim ond drwy ddeddfwriaeth sylfaenol y gellir gwneud y darpariaethau perthnasol yn y Bil, a bod yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- Mae cynnig deddfwriaethol Llywodraeth y DU yn briodol ar gyfer amgylchiadau Cymru, gan fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i

hwyluso defnyddio cerbydau sy'n gallu gyrru eu hunain mewn modd diogel ac effeithlon.

- Mae natur gydgysylltiedig y system drafnidiaeth yng Nghymru a Lloegr, a'r cyfuniad o'r materion a gedwir yn ôl a'r materion datganoledig dan sylw, yn golygu mai'r opsiwn mwyaf effeithiol a phriodol yw i ddarpariaeth ar gyfer y naill a'r llall gael ei datblygu ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Am y rhesymau hyn mae'n annhebygol y byddai gwneud darpariaeth drwy'r Biliau tacsis a/neu fysiau y bwriedir eu cyflwyno i'r Senedd yn foddhaol.
- Fel y nodir uchod, mae technoleg yn datblygu'n gyflym yn y maes hwn ac mae'n bwysig bod y fframwaith deddfwriaethol yn cadw i fyny ac yn cydfynd yn llawn ar draws y DU.

Goblygiadau ariannol

20. Nid yw'r diwygiadau'n effeithio ar fy marn i y gellid talu costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o'r system drwyddedu a nodir yn y Bil drwy gyllidebau presennol.

Casgliad

21. Am y rhesymau a nodir uchod, credaf ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau yn y memorandwm hwn yn y Bil hwn ar gyfer y DU.

22. Mae trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth y DU ynghylch cymal 40 o'r Bil, sy'n effeithio ar faterion datganoledig drwy roi swyddogaethau a gedwir yn ôl i awdurdodau datganoledig Cymru (awdurdodau lleol yng Nghymru), ac felly mae angen cydsyniad y Senedd. Drwy reoliadau a wneir o dan gymal 40, caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiadau gan brif swyddog heddlu ac awdurdodau penodol sy'n cynnwys Gweinidogion yr Alban ac awdurdodau lleol yng Nghymru, ond nid Gweinidogion Cymru. Fel y nodais yn y Memorandwm blaenorol, credwn y gallai hepgor Gweinidogion Cymru fod yn gangymeriad.

23. Byddaf yn rhoi diweddariad arall i'r Senedd ar y trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 40 a 93 maes o law.

Lee Waters AS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Chwefror 2024